**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**13 GORFFENNAF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd Y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau 13 Gorffennaf 2017.

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Bob Connah, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Paul Johnson, Richard Jones, Mike Lowe, Michelle Perfect, Vicky Perfect ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIAD:** Cynghorydd Hilary McGuill

**EILYDD:** Cynghorydd David Wisinger (ar ran Ron Hampson)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Bernie Attridge

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid; Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol; Prif Weithredwr; Rheolwr Cyllid Corfforaethol; a Swyddog Gweithredol Cyfathrebu a Busnes Corfforaethol

**ARSYLWYR:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog y Pwyllgor

**7. DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**8. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

**9. CYNLLUN Y CYNGOR 2017-23**

Cyflwynodd y Cynghorydd Aaron Shotton Cynllun y Cyngor 2017-23 drafft a oedd wedi’i adolygu a’i newid i adlewyrchu prif flaenoriaethu'r Cyngor ar gyfer y tymor pum mlynedd o'r weinyddiaeth newydd. Roedd yn ddyletswydd statudol gan y Cyngor i fabwysiadu'r Cynllun (a oedd yn cymryd lle'r Cynllun Gwella blaenorol) a'i bwysigrwydd i adnabod blaenoriaethau ac amcanion, yn arbennig yn ystod adegau o galedi, yn cael eu hadnabod.

I gywiro'r pwrpas yr adroddiad ar yr agenda, gofynnodd y Prif Weithredwr am sylwadau i roi fel adborth i’r Cabinet fel bod pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gallu ystyried eu meysydd penodol. Bydd ymatebion yn cael eu dychwelyd i’r Pwyllgor hwn a’r Cabinet ym mis Medi 2017 i helpu i lywio'r Cynllun terfynol cyn cael cymeradwyaeth y Cyngor. Mae’r themâu blaenorol wedi'i gydgrynhoi i chwe

blaenoriaeth i'w cyflenwi yn y pum mlynedd nesaf, gyda ffocws penodol yn y flwyddyn gyntaf.

Dywedodd y Swyddog Gweithredol Cyfathrebu a Busnes Corfforaethol bod y strwythur cyffredin o'r cynllun blaenorol wedi'i gadw, ond ni fydd materion polisi cenedlaethol yn effeithio ar gyflenwi rhai canlyniadau. Roedd y tabl o fewn y Cynllun yn nodi'r effaith dymunol i bob blaenoriaeth ac is-flaenoriaeth sydd wedi'i gysylltu â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) y Cyngor ac ymrwymiad i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd rheoli risgiau wedi'u nodi ar gyfer pob adran. Bydd manylion ar berfformiad targed a cherrig filltir yn cael eu rhannu yn yr ail ran o ddogfen "Sut ydym yn mesur llwyddiant' sydd i'w rannu ar ddyddiad diweddarach.

Siaradodd y Cynghorydd Billy Mullin ynghylch cofnod y Cyngor ar berfformiad fel y nodwyd gan y Swyddfa Archwilio Cymru, a'r bwriad i adeiladu ar y llwyddiannau hynny.

Croesawodd y Cynghorydd Richard Jones y gwelliannau parhaus yn strwythur y Cynllun. Roedd ei bryderon ynghylch y cynnwys, dywedodd nad oedd manylion ar sut y bydd y blaenoriaethau yn cael eu mesur o ran eu llwyddiant. Adlewyrchodd ar Gynlluniau blaenorol a oedd yn teimlo yr oeddynt yn canolbwyntio ar ardal Glannau Dyfrdwy, a gofynnodd am sicrwydd y byddai'r gwariant ar y blaenoriaethau cyfredol yn cael eu lledaenu'n deg ar draws y sir.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod rhai materion drwy'r sir gyfan, ond rhoddodd enghreifftiau o eraill sydd wedi'u targedu'n benodol yn unol ag ardaloedd o angen neu sy'n ddibynnol ar gyllid. Bydd cynlluniau ar sail ddaearyddol a'u buddion i ardaloedd ehangach yn cael eu cyfeirio yn yr ail ran o'r ddogfen.

Eglurodd y Cynghorydd Aaron Shotton bod cyfeiriad at Lannau Dyfrdwy oherwydd ffocws rhanbarthol a chenedlaethol ar bwysigrwydd economaidd o dwf Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy y byddai Sir Y Fflint ar y cyfan yn manteisio ohono. Hefyd cyfeiriodd at estyniad i'r rhaglen adeiladu tai'r Cyngor i rannau eraill o'r sir.

Er i'r Cynghorydd Jones gydnabod Glannau Dyfrdwy fel y ganolfan gyflogaeth yn y sir gyda buddiannau i'r ardaloedd ehangach, teimlodd ei fod yn bwysig bod cymunedau eraill yn cael cyllid cyfartal, yn arbennig i adfywio canolfannau tref.

Amlygwyd pwysigrwydd twristiaeth gan y Cynghorydd Vicky Perfect i helpu i roi hwb i'r economi leol.

Awgrymodd y Cynghorydd Arnold Woolley eiriau eraill yn lle'r gair 'effaith' a oedd wedi cael ei adrodd drosodd a throsodd yn y Cynllun. Gofynnodd am y cyswllt rhwng tai cymdeithasol a'r Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) a'r angen i ddiffinio tlodi i dargedu cymorth yn briodol. Awgrymodd meysydd blaenoriaeth eraill megis diogelu pobl ifanc yn erbyn camddefnyddio cyffuriau; hyfforddiant addysg i ddiwallu sgiliau gofynnol; mynd i'r afael â throsedd amgylcheddol megis baw cŵn; a thai rhent sector preifat.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton y gellir gwneud cyfeiriad mwy penodol i dwristiaeth a oedd wedi'i nodi dan y flaenoriaeth 'Cyngor Gwyrdd'. Dywedodd bod meincnodau clir ar dlodi a bod angen barn gytbwys ar aelodau blaenoriaeth yn groes i fusnes dyddiol y Cyngor. Roedd cefndir rhai o'r pynciau a awgrymwyd yn ffurfio rhan o fframwaith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys materion eraill megis adolygu polisi Treth Y Cyngor ar Dai Amlfeddiannaeth (AMO). Tra bo'r cam hwn o'r ddogfen yn nodi amcanion y blaenoriaethau, byddai'r ail ran ar fesur perfformiad yn cynnwys y lefel o fanylder y mae'r Aelodau eu hangen.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod y blaenoriaethau wedi seilio ar effeithiau hirdymor gyda strategaethau cefnogol a fyddai'n cael eu hystyried yn y ddogfen ddilynol gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae llawer o'r meysydd blaenoriaeth eraill yn awgrymu yn faterion cymdeithas, a dim ond ychydig o ddylanwad y byddai gan y Cyngor.

Er ei fod yn cefnogi amcanion y blaenoriaethau, nid oedd y Cynghorydd Patrick Heesom yn teimlo na allai gefnogi'r Cynllun yn ei ffurf bresennol gan nad oedd yn dangos mecanwaith i gyflawni'r canlyniadau.

Ail-adroddodd y Swyddog Gweithredol Cyfathrebu a Busnes Corfforaethol y bydd yr ail ran o'r ddogfen yn cynnwys mesurau a cherrig milltir lle gallai datblygiad gael ei graffu, fodd bynnag nid oedd y Cynllun drafft yn cynnwys manylion ar sut y byddai llwyddiant yn cael ei fesur.

Mewn ymateb i bryderon y Cynghorydd Heesom ar yr angen am ragor o eglurder, atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod y Cynllun drafft wedi'i wneud ar sail y Cynllun Gwella blaenorol, lle'r oedd mecanweithiau wedi'u hen sefydlu, ac wedi'u cefnogi gan strategaethau, wedi helpu i yrru perfformiad.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Johnson y dylai'r ddogfen gynnwys cyfeiriad at Brexit fel risg sylweddol posibl i ganlyniadau ar yr economi leol dros y pum mlynedd nesaf. Awgrymodd y Prif Weithredwr bod elfennau ar yr economi leol yn y Cynllun yn gallu cael eu cryfhau a siaradodd am y trafodaethau rhanbarthol sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Holgate ar Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP), cydnabuwyd y dylai gael ei gynnwys yn y geirfa ynghyd ag unrhyw dalfyriadau. Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen i'r ddogfen yn ystyrlon ac awgrymwyd y dylid cael dolenni i'w defnyddio i helpu egluro brawddegau.

Awgrymodd y Cynghorydd David Wisinger ymgynghoriad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar geisiadau cynllunio ar gyfer addasiadau atic fflat un ystafell i atal gorlenwi a thrafod hyn gyda Chynllunio. Cytunodd â'r pwynt a wnaethpwyd ynghylch Treth Y Cyngor mewn Tai Amlfeddianaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Woolley y dylai blaen y ddogfen gyfeirio at waith ar flaenoriaethau ‘yn unol â phartneriaid hanfodol neu statudol.’ Dywedodd y Prif Weithredwr y gellir cadarnhau hyn yn ychwanegol â’r symbol ysgwyd llaw.

Ailadroddodd y Cynghorydd Jones ei bryderon ar gynnwys y ddogfen gyfredol ac nid oedd yn gallu cefnogi argymhellion llawn ar y sail hynny.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod sylwadau’r Aelodau ar gynnwys y cynllun drafft yn cael eu hystyried gan y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn hysbysu'r Cabinet ei fod yn cefnogi'r strwythur, fformat a chynnwys y fersiwn 'cyhoeddus' y cynllun (Gwella) y Cyngor 2017-23 a fydd yn cael ei gyflwyno i’r Cyngor i’w gymeradwyo maes o law; a

(b) Lle bo Aelodau wedi mynegi pryderon, bydd y rhain yn cael eu hystyried gan y swyddogion.

## 10. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2016/17 (ALLDRO) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF (ALLDRO)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar fonitro cyllideb refeniw 2016/17 (alldro) ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllid y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2016/17 (alldro), cyn i’r Cabinet ei ystyried.

Monitro Cyllideb Refeniw

Roedd y sefyllfa terfynol (yn amodol ar archwiliad) wedi nodi diffyg gweithredol £0.846m. Roedd yr alldro cyffredinol yn cynnwys effaith gadarnhaol gan y newid ym mholisi Cyfrifo Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) a oedd yn weithredol yn dileu'r diffyg gweithredu gyda'r gwariant net yn £2.039m yn is na’r gyllideb. Roedd yr adroddiad yn disodli’r sefyllfa mis 12 a nodwyd yn flaenorol i'r Cabinet (wedi'i atodi fel dolen i'r dogfennau). Rhoddwyd trosolwg byr ar y prif symudiadau ar gyfer y flwyddyn gyda manylion y symudiadau sylweddol ers mis 12. Hefyd rhoddwyd ddiweddariad ar gyllid wrth gefn at raid a’r rhaglen o effeithlonrwydd y byddai gwelliant yn cael ei ddangos ar y flwyddyn flaenorol. Roedd y prif newidiadau o fewn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cynnwys lleihad sylweddol yn y Cronfeydd Statws Sengl oherwydd tynnu i lawr o gyllid i fodloni costau cymeradwy.

Ar y Cyfrif Refeniw Tai, mae’r gwariant net yn ystod y flwyddyn yn £0.018m yn is na'r gyllideb, gyda balans cau yn £1.116m sy’n cynrychioli 3.5% i gyfanswm gwariant (yn uwch na'r isafswm lefel a argymellir o 3%).

Yn ystod eglurhad ar y newid polisi cyfrifo Isafswm Darpariaeth Refeniw, tynnwyd sylw at adroddiad y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2016.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones gwestiwn ynghylch y dehongliad o’r geiriau ar ganlyniad sefyllfa’r cyllid Grant Cynnal Refeniw. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr safle cryf gan Sir y Fflint fel rhan o lywodraeth leol ar y cyd yn

lobio Llywodraeth Cymru am setliad cyllid tecach sydd wedi arwain at ganlyniad mwy ffafrio na ddisgwyliwyd.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Haydn Bateman, eglurodd swyddogion ynghylch y dull o adeiladu cronfeydd Cynhaliaeth y Gaeaf a'r defnydd o gronfeydd Statws Sengl.

Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Patrick Heesom, cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i ddarparu dadansoddiad o gyfran cronfeydd hapddigwyddiad a ddefnyddir i fodloni effaith trosglwyddiadau ased cymunedol.

Rhaglen Gyfalaf

Mae tabl yn dangos newidiadau i'r rhaglen yn ystod 2016/17 yn nodi cyllideb ddiwygiedig o £65.968m. Ers y chwarter diwethaf, roedd cynnydd net yng nghyfanswm y rhaglen o £5.918m fel y nodwyd yn adrannau 1.06-1.08. Roedd cyfanswm y swm i'w barhau i 2017/18 yn £3.589m a oedd yn lleihad sylweddol ar y flwyddyn flaenorol. Roedd diweddariad ar gyllid cynlluniau cymeradwy 2016/17 yn nodi argaeledd o £5.066m a glustnodwyd i ariannu cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw (alldro) ar gyfer 2016/17 yn cael ei dderbyn;

(b) Bod yr adroddiad Rhaglen Gyfalaf (alldro) ar gyfer 2016/17 yn cael ei dderbyn; a

(c) Cadarnhaodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw faterion penodol i dynnu at sylw'r Cabinet.

## 11. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2017/18 (DROS DRO)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar y sefyllfa dros dro monitro cyllideb refeniw ar gyfer 2017/18 cyn cael ei ystyried gan y Cabinet. Atgoffodd yn ystod cyfnod cynnar yn flwyddyn, cafodd adnoddau eu cyflwyno i gau'r cyfrifon ar gyfer 2016/17 i gydymffurfio â'r dyddiad cau statudol. Yr asesiad cychwynnol yn y cam cynnar hwn oedd bod gwariant a ragwelwyd i fod yn £0.978m yn uwch na'r gyllideb, fodd bynnag nid oedd hyn yn adlewyrchu sefyllfa alldro cyfan a ragwelwyd a ddylai gael ei adrodd ym mis Medi. Yn ystod diweddariad ar fonitro risgiau a risgiau eraill sy'n ymddangos, gwnaethpwyd cyfeiriad at ddyraniadau cyllid ychwanegol gan Llywodraeth Cymru ar ofal cymdeithasol. Nid oedd amrywiadau sylweddol wedi'u nodi ar y Cyfrif Refeniw Tai.

Cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i rannu gwybodaeth ar y pwysau sy'n codi o'r incwm injan nwy, yn ôl cais gan y Cynghorydd Haydn Bateman.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Richard Jones, darparodd y Prif Weithredwr gadarnhad ar y grant Cronfa Gofal Canolraddol a'r enciliad o daliadau tanysgrifiadau porth meddalwedd.

Gofynnodd y Cadeirydd am fwy o fanylion ar y diffyg effeithlonrwydd mewn trwyddedau maes parcio yn Neuadd Y Sir a dywedwyd y bydd y ffigurau yn cael eu rhannu. Awgrymodd y Cynghorydd Jones y dylid cynnig cost gostyngedig o drwyddedau maes parcio i fasnachwyr canol tref. Dywedodd y Prif Weithredwr bod system reoledig mewn lle ar gyfer parcio yn Neuadd y Sir a byddai'r trefniadau yn amodol i adolygiad pellach.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw (alldro) ar gyfer 2017/18 yn cael ei dderbyn; a

(b) Cadarnhaodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw faterion penodol i dynnu at sylw'r Cabinet.

## 12. DIWEDDARIAD STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad ar y rhagolwg ariannol diwygiedig ar gyfer 2018/19 fel rhan o adnewyddu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS).

Rhoddwyd gyflwyniad a oedd yn trafod y meysydd canlynol:

- Rhagolygon Ariannol 2018/19
- Prif bwysau
- Risgiau ac Effeithiau Posibl o 2017/18
- Sefyllfa Genedlaethol
- Gwneud Achos Cenedlaethol
- Camau Nesaf

Roedd y rhagolwg diwygiedig yn dangos bwlch a ragwelir o £11.7m ar gyfer 2017/18 cyn unrhyw fodelu ar lefelau Treth Y Cyngor cynyddol. Roedd y rhagolygon wedi seilio ar ystod o wybodaeth gan gynnwys pwysau cenedlaethol, lleol a gweithlu. Er y gellir rhagweld rhai materion yn sicr, roedd rhai y tu allan i reolaeth y Cyngor. Y ddau ffactor mwyaf sylweddol oedd setliad ariannol llywodraeth leol ar gyfer 2017/18 a lefelau Treth Y Cyngor.

Amlygodd y Cynghorydd Aaron Shotton y pwysigrwydd o gynghorau yng Nghymru yn parhau i lobio Llywodraeth Cymru ar y cyd i gael cyllid tecach ac i Sir Y Fflint i wneud yr achos ymysg y rheiny gyda safle a ariennir yn isel. Roedd tybiaethau rhesymol wedi cael eu gwneud ar gyllid grant a gwnaethpwyd gyfeiriad at bosibilrwydd toriadau cyllid 'cudd' gan Llywodraeth DU a fyddai'n effeithio Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Richard Jones, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r gwaith yn parhau ar ddatblygu'r MTFS, fodd bynnag roedd yn anochel na fyddai'r bwlch cyllideb a ragwelwyd yn cael ei ddiwallu heb effeithio ar wasanaethau rheng flaen. Roedd hyn wedi ei adnabod yn eang yn ystod y broses ymgynghori cyllideb lle'r oedd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer eu meysydd penodol.

**PENDERFYNWYD:**

Gan ystyried yr adroddiad, bod y Pwyllgor yn hysbysu'r Cabinet ei fod yn cefnogi'r fframwaith ar gyfer diwygio'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

## 13. ADRODDIAD CANLYNIAD CYNLLUN GWELLA 2016/17

Cyflwynodd y Prif Swyddog yr adroddiad diweddariad i ystyried cynnydd ar gyfer cyflawni'r effeithiau yn y Cynllun Gwella 2016/17, gan ganolbwyntio ar y meysydd tan berfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn.

Dywedodd y Swyddog Gweithredol Cyfathrebu a Busnes Corfforaethol bod cynnydd da ar gamau gweithredu a pherfformiad yn erbyn y targedau, gydag eglurhad ar yr unig faes coch ar ganran trosiant gweithwyr. Roedd y mwyafrif o risgiau a nodwyd yn ganolog neu'n fychan, a'r unig faes risg coch ar y raddfa oedd yr her ariannol.

Cododd y Cynghorydd Richard Jones fater ar gysondeb y graddfeydd canlyniad wrth gymharu'r ddau gam gweithredu. Eglurwyd bod y cam gweithredu cyntaf yn cynnwys Rheolau'r Weithdrefn Gontractau newydd a gyflwynwyd lle'r oedd buddion cymunedol yn cael eu cyflawni dros dymor hirach. Er bod cynnydd wedi'i wneud ar y Cyfamod y Lluoedd Arfog. Nid oedd y canlyniadau wedi cyflawni 100% ar y cam hwn. Hefyd amlygodd y Cynghorydd Jones nad oedd y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ym Mwcle wedi'u nodi o fewn y Dangosydd Perfformiad Allweddol. Ar gais am sylwadau ar ganran trosiant gweithwyr, rhoddwyd diweddariad byr a bydd yn cael ei egluro ymhellach yn y diweddariad Gwybodaeth Gweithlu nesaf. Ar ganran dioddefwyr ailadroddus risg uchel o gamdriniaeth domestig a gyfeiriwyd at y Gynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth Sir y Fflint, byddai swyddogion yn sefydlu a fyddai'r targed o 28 a osodwyd yn lleol neu'n genedlaethol, gan ei fod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad canlyniad Cynllun Gwella 2016/17 yn cael ei dderbyn.

## 14. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Cynllun y Cyngor 2017-23 i'w gynnwys ar gyfer mis Medi 2017.
- Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Diwygio Etholiadol (wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2017) i fod i ddechrau ar ddiwedd y mis.
- Y Rheolwr Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol i'w wahodd ym mis Medi 2017 i gyflwyno ei adroddiad blynyddol.
- Roedd cynrychiolydd o'r Awdurdod Tân ac Achub wedi'i wahodd i ddod ym mis Tachwedd 2017 ar gyfer yr eitem ymgynghori ar gyllideb.
- Er nad oedd ar gael ar gyfer y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2017, bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei wahodd ar ddyddiad arall fel rhan o'r trefniant blynyddol gyda'r Pwyllgor.
- Anogwyd aelodau o'r Pwyllgor i fynychu'r gweithdy 'Cysoni Dulliau o Gyflawni Newid'.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Waith i'r Dyfodol fel y cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo gyda newidiadau; a

(b) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn cael amrywio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, os bydd angen.

## 15. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.25pm)

…………………………

**Cadeirydd**